**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**16 Mehefin 2014**

# CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (CPLlL) – POLISI DISGRESIYNAU

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad ar yr Awdurdod i lunio Datganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL.

2 Ceisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau a wnaed ynghylch pob rheoliad yn Natganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL, a cheisio cymeradwyaeth y bydd penderfyniadau o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd, ar ran yr ATA.

## Gwybodaeth

3 O dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2008, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cyflogi lunio, cyhoeddi ac adolygu datganiad polisi ynglŷn ag arfer nifer o ddisgresiynau o dan y CPLlL. Yn dilyn y newidiadau i'r rheoliadau CPLlL ar gyfer 2014, mae rhagor o ddisgresiynau wedi eu cynnwys yn y polisi.

4 Cynhwysir yn y Datganiad Polisi bob maes disgresiwn sy'n gofyn am benderfyniad ffurfiol.

5 Nid yw'r datganiad polisi hwn yn gymwys ond i aelodau'r cynllun a gyflogir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Argymhelliad

6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo pob penderfyniad ynghylch disgresiwn o fewn Datganiad Polisi Disgresiynau'r CPLlL, a dirprwyo penderfyniadau o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.

**Polisi Disgresiynau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Math o ddogfen: Polisi
Fersiwn, rhif: 2
Dyddiad adolygu: Mai 2014

**RHAN A**

Mae rheoliadau'r CPLlL yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr wneud y canlynol:

(i) cyhoeddi datganiad polisi ysgrifenedig ynglŷn â'r modd y bydd yn arfer y gwahanol ddisgresiynau a ddarperir gan y cynllun,
(ii) ei adolygu, a
(iii) ei ddiwygio fel y bo'r angen.

Mae'r ddogfen hon yn bodloni'r gofynion hynny, gan nodi gofyniad y rheoliad a phenderfyniad y sefydliad ynghylch y rhain.

Mae'r disgresiynau hyn yn agored i'w newid, naill ai'n unol ag unrhyw newid mewn rheoliadau, neu ar ôl i'r Awdurdod eu hystyried. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol.

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2014**

**1.1 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2014 Rheoliad 16 (2) (e) & 16 (4) (d)**

Mewn rhai amgylchiadau, caiff cyflogwr ddewis cyfrannu i gynllun Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol Rhannu Costau. Yn achos gweithiwr sy'n talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol er mwyn prynu rhywfaint o'r pensiwn neu'r holl bensiwn a 'gollwyd' am gyfnod o absenoldeb di-dâl (gan gynnwys unrhyw gyfnod o gyfnod di-dâl ar famolaeth, tadolaeth neu gyfnod mabwysiadu), bydd y cyflogwr yn talu 2/3 o gost y cyfraniad (rhaid i'r gweithiwr ddewis prynu'r aelodaeth a gollwyd cyn pen 30 niwrnod ar ôl dychwelyd i'r gwaith). Yr enw am hyn yw Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol Rhannu Costau (SCAPC).

Pan fo'r absenoldeb yn gysylltiedig ag anghydfod diwydiannol, bydd y gweithiwr yn talu 100% o'r gost.

Os bydd gweithiwr yn dewis gwneud cyfraniad unigol neu gyfraniadau ychwanegol rheolaidd er mwyn prynu swm penodol o bensiwn ychwanegol, mae'n bosibl i gyflogwr gyfrannu tuag at gost prynu pensiwn o'r fath yn wirfoddol. Gall y rhaniad rhwng cyfraniadau ychwanegol y gweithiwr a'r cyflogwr ar gyfer SCAPC fod yn unrhyw gymhareb y cytunir arni, ond ni all y gost fod yn 100% i'r cyflogwr.

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Oherwydd baich bosibl y gost, ni fydd yr Awdurdod Tân yn cyfrannu tuag at y gost pan fo'r gweithiwr yn prynu pensiwn ychwanegol.***

**1.2 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2014 Rheoliad 30 (6) & Rheoliad Trosiannol 11 (2) (ymddeoliad hyblyg)**

*Caiff cyflogwr ganiatáu i aelod o'r cynllun pensiwn sydd wedi cyrraedd 55 mlwydd oed leihau'r oriau y mae'n eu gweithio, neu'r raddfa y mae wedi ei gyflogi arni, a chael mynediad at rywfaint o'i fuddion pensiwn neu ei holl fuddion pensiwn.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Ystyrir pob achos yn ei rinwedd ei hun ar ôl rhoi ystyriaeth lwyr i'r holl oblygiadau ariannol ac o ran darparu gwasanaethau.***

**1.3 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2014 Rheoliad 30 (8) (ymddeoliad hyblyg)**

*Caiff aelod o'r cynllun pensiwn sydd wedi cyrraedd 55 mlwydd oed ac sydd, gyda chydsyniad ei gyflogwr, yn lleihau'r oriau y mae'n eu gweithio, neu'r raddfa y mae wedi ei gyflogi arni, wneud cais ysgrifenedig i gael rhan o'i fuddion, neu ei holl fuddion, dan y Rheoliadau Buddion.*

*Os caiff y buddion eu lleihau yn unol â'r canllawiau gan Actiwari'r Llywodraeth, caiff y cyflogwr gytuno i hepgor lleihad o'r fath, yn rhannol neu yn gyfan gwbl.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Bydd unrhyw gais gan weithiwr i gael ymddeoliad hyblyg yn cael ei ystyried yn ei rinwedd ei hun ar ôl rhoi ystyriaeth lwyr i'r holl oblygiadau ariannol ac o ran darparu gwasanaethau.***

***Pan fo cost gyfalaf i'r Awdurdod Tân, mae'n anhebygol y cytunir i'r cais oni bai fod modd gwrthbwyso'r costau cyfalaf gan arbedion ariannol.***

***Nid yw hyn yn atal gweithwyr iau rhag gwneud cais am weithio'n hyblyg ond heb dalu eu buddion ymddeoliad.***

***Dan ymddeoliad hyblyg, bydd angen o leiaf 20% o ostyngiad yn yr oriau gweithio.***

**1.4 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2014 Rheoliad 30 (8) (ymddeol yn gynnar)**

Caiff cyflogwr hepgor, yn gyfan gwbl neu yn rhannol, ostyngiad actiwaraidd ar fuddion y mae aelod yn eu tynnu allan yn wirfoddol cyn yr oedran pensiwn arferol.

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i hepgor unrhyw ostyngiad yn y budd pensiwn o ganlyniad i ymddeoliad cynnar, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Ystyrir pob achos yn ei rinwedd ei hun ar ôl rhoi ystyriaeth lwyr i'r holl oblygiadau ariannol ac o ran darparu gwasanaethau.***

**1.5 Rheoliadau CPLlL (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014, Atodlen 2 – (Y Rheol 85 Mlynedd)**

Gellir gweithredu'r "Rheol 85 Mlynedd", sef pan fo gwasanaeth yr aelod ynghyd â'i oedran yn hafal i 85, i aelodau unigol cyn eu bod yn 60 mlwydd oed yn achos Ymddeoliad Cynnar, a gall y cyflogwr fod yn gyfrifol am y gost yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Mae gan yr Awdurdod Tân ddisgresiwn i hepgor y gostyngiadau yn gyfan gwbl neu'n rhannol, a bydd yn ystyried pob achos yn ei rinwedd ei hun ar ôl rhoi ystyriaeth lwyr i'r holl oblygiadau ariannol ac o ran darparu gwasanaethau.***

***Bydd yr Awdurdod Tân yn cymeradwyo gweithredu'r rheol 85 mlynedd ymhob achos pan nad oes unrhyw gost i'r cyflogwr, gan ganiatáu i'r aelod gymryd ei fuddion yn gynnar gyda rhywfaint o ostyngiad actiwaraidd.***

**Adolygu** – Caiff yr Awdurdod adolygu ei bolisi unrhyw bryd.

**1.6 Rheoliadau CPLlL (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014, Atodlen 2 – (hepgor gostyngiadau)**

Mae gan y cyflogwr ddisgresiwn i adolygu ceisiadau i hepgor gostyngiadau i fuddion o aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 pan fo cyflogwr wedi gweithredu'r rheol 85 i aelod sy'n tynnu buddion allan yn wirfoddol yn 55 mlwydd oed neu wedi hynny ond cyn 60 mlwydd oed.

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i hepgor y gostyngiad actiwaraidd ar dalu pensiwn yn gynnar, oni bai:***
***(i) bod y taliad yn ymwneud â rhywun sy'n colli ei swydd oherwydd dileu swydd neu sy'n cymryd ymddeoliad ar sail effeithlonrwydd o gyflogaeth weithredol gyda'r Gwasanaeth Tân***
***(ii) bod rhesymau grymus a thosturiol* dros wneud hynny.***

**1.7 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2014 Rheoliad 31**

O 1 Ebrill 2014 ymlaen, caiff cyflogwr ddyfarnu pensiwn ychwanegol hyd at uchafswm o £6,500.
Dim ond ar gyfer gweithiwr sy'n aelod gweithredol o'r CPLlL y gellir dyfarnu pensiwn ychwanegol, neu cyn pen 6 mis ar ôl iddo adael y gyflogaeth os y rheswm oedd dileu swydd neu effeithlonrwydd busnes.

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i ddyfarnu pensiwn ychwanegol.***

**RHAN B – Polisïau disgresiynau yn ymwneud â rheolau cynharach y Cynllun**

**2.1 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 Rheoliad 12**

*Caiff cyflogwr gynyddu (h.y. codi) cyfanswm aelodaeth gweithiwr sydd ar y pryd yn talu cyfraniadau i'r Cynllun, er enghraifft, er mwyn gwella'r pecyn i'r staff â sgiliau prin a/neu allweddol.*
*Ni chaiff cynnydd aelodaeth yr aelod (o'r cynllun pensiwn) o dan y rheoliad hwn (gan gynnwys aelodaeth ychwanegol mewn perthynas â gwahanol gyflogaethau) fod yn fwy na 10 mlynedd, na mynd yn uwch na 75 mlwydd oed os yw'n ymddeol ar ôl 65 mlwydd oed. Daw'r disgresiwn hwn i ben yn llwyr ar ôl 30/09/14.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i gynyddu pensiwn.***

**2.2 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 Rheoliad 30 (2)**

Disgresiwn y cyflogwr yw adolygu ceisiadau gan gyn-weithwyr ar gyfer rhyddhau'r buddion gohiriedig yn 55 mlwydd oed neu wedi hynny ond cyn 60 mlwydd oed.

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod i hepgor unrhyw ostyngiad yn y budd pensiwn o ganlyniad i ymddeoliad cynnar.***

**2.3 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 Rheoliad 30 (5)**

Disgresiwn y cyflogwr yw adolygu ceisiadau i hepgor y gostyngiadau yn y buddion pan fo cyflogwr wedi cytuno i ryddhau'r buddion gohiriedig yn 55 mlwydd oed neu wedi hynny.

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i hepgor y gostyngiad actiwaraidd wrth dalu pensiwn gohiriedig yn gynnar oni bai fod rhesymau grymus a thosturiol* dros wneud hynny.***

**2.4 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 Rheoliad 30A (3)**

Disgresiwn y cyflogwr yw adolygu ceisiadau gan gyn-weithwyr i ryddhau'r buddion gohiriedig yn 55 mlwydd oed neu wedi hynny yn dilyn pensiwn gohiriedig ar sail afiechyd.

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i hepgor y gostyngiad actiwaraidd wrth dalu pensiwn gohiriedig yn gynnar oni bai fod rhesymau grymus a thosturiol* dros wneud hynny.***

### 2.5 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 Rheoliad 47

Nid oes gan aelod o'r cynllun, sy'n bodloni'r meini prawf arferol ar gyfer ad-dalu cyfraniadau pensiwn, hawl i ad-daliad o'r fath os yw wedi ymadael â'i gyflogaeth oherwydd:

- Trosedd o natur dwyllodrus – oni bai fod y cyflogwr yn gorchymyn y gellir gwneud ad-daliad cyfan neu rannol i'r aelod.
- Camymddygiad difrifol – oni bai fod y cyflogwr yn gorchymyn y gellir gwneud ad-daliad cyfan neu rannol i'r aelod, ei briod, ei bartner sifil, cymar sy'n cydfyw ac a enwir, neu unrhyw ddibynydd sydd ganddo

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Pob cais i gael ei ystyried yn unigol gan y Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd ar ran yr Awdurdod, cyn gwneud penderfyniad.***

**RHAN C**

**3.1 Cefndir**

Mae pum disgresiwn arall nad yw'n orfodol eu cynnwys yn y Datganiad Polisi ond yr argymhellir eu cynnwys:

**3.2 Rheoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2008 Rheoliad 22 (2)**

*Gall aelod o'r cynllun ddewis talu cyfraniadau opsiynol i ymorol am gyfnod o absenoldeb o'r gwaith cyhyd â bod yr opsiwn yn cael ei wneud cyn pen 30 niwrod ar ôl dychwelyd i'r gwaith neu derfynu cyflogaeth neu gyfnod hwy a ganiateir gan y cyflogwr.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Mae'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i ystyried estyniad mewn achosion pan fo'r aelod o'r staff heb gael gwybod am eu hawliau i dalu cyfraniadau am gyfnod o absenoldeb cyn dychwelyd i'r gwaith, neu ddarfod bod yn gyflogedig heb ddychwelyd i'r gwaith. Byddai'r estyniad am fis ar ôl y dyddiad pryd y cafodd wybod am ei hawl i dalu.***

**3.3 Rheoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2008 Rheoliad 83 (8)**

*Os yw aelod o'r cynllun yn dymuno trosglwyddo pensiwn i'r CPLlL, rhaid iddo ddewis gwneud hynny cyn pen 12 mis ar ôl ymuno â'r CPLlL neu gyfnod hwy a ganiateir gan y cyflogwr.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad

***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i ystyried ymestyn y terfyn amser ar gyfer trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol ar ôl deuddeng mis wedi iddo ymuno, oni bai:***

***(i) bod yr aelod o'r cynllun wedi gwneud cais i ymchwiliadau gychwyn o fewn y terfyn amser o ddeuddeng mis, neu***

***(ii) os oes rheswm i gredu na fyddai'r unigolyn wedi gwybod am yr angen i wneud cais am ymchwiliad i'r posibilrwydd o drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i mewn cyn pen y terfyn amser o ddeuddeng mis, a bod ffeiliau'r pensiwn a/neu AD yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir cyfnod hwy, a hynny os nad oes rheswm hysbys nac argoel y caiff y gweithiwr fynediad at eu hawliau pensiwn o fewn y 12 mis nesaf.***

**3.4 Rheoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2008 Rheoliad 25 (3)**

*Pan fo awdurdod cyflogi'r aelod yn cyfrannu i'r cynllun, enw'r trefniant cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yw trefniant cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhannu costau, a'r enw ar y cyfraniadau iddo yw "SCAVCs".*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod Tân i gyfrannu tuag at gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhannu costau.***

**3.5 Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 Rheoliad 3 (4)**

*Pan fo gweithiwr yn cael ei gyflogi mewn unrhyw gyflogaeth am ran yn unig o unrhyw flwyddyn ariannol, yr ystod (a'r gyfradd gyfraniadau) sy'n gymwys iddo yw'r rhai a fyddai wedi bod yn gymwys petai wedi bod yn gyflogedig fel hynny am y flwyddyn ariannol honno ar ei hyd.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Bydd y gyfradd cyfraniad haenog ar gyfer pob gweithiwr yn seiliedig ar elfennau'r cyflog pensiynadwy. Caiff y cyflog sylfaenol ei asesu ar y gyfradd gyfwerth â llawn amser ymhob swydd y mae gweithiwr yn ei dal ar 1 Ebrill.***
***Caiff y gyfradd gyfraniadau ei hailasesu bob blwyddyn pan weithredir/gymwysir y dyfarniad cyflog blynyddol (ni waeth pryd y gwneir y dyfarniad). Ailasesir unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn yn yr amgylchiadau a ganlyn:-***

- ***Dyrchafu***
- ***Israddio***
- ***Datblygiad cynyddrannol***
- ***Dyfarniad cyflog***
- ***Dechrau / Diwedd cyfnod gweithredu ar lefel uwch dros dro***
- ***Dechrau / Diwedd Lwfans Cytundebol.***

**RHAN D**

**Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiynol) (Lwfansau Anafiadau) 2011**

**4.** *Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiynol) (Lwfansau Anafiadau) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân fabwysiadu datganiad polisi ysgrifenedig ynglŷn ag arfer disgresiynau dan y rheoliadau. Mae'r rheoliadau yn darparu pwerau i gyflogwyr wneud taliadau i unigolion sy'n dioddef anaf neu'n marw o ganlyniad i waith. Mae'r taliadau hyn y tu allan i'r rhai sydd ar gael yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a rhaid eu hariannu gan y cyflogwr, nid gan y cynllun pensiwn.*

Manylion Polisi ynghylch Penderfyniad
***Nid yw'r Awdurdod Tân wedi gwneud taliadau o'r fath yn y gorffennol. I weithwyr sy'n aelodau o'r cynllun pensiwn llywodraeth leol, mae trefniadau i dalu pensiunau yn achos afiechyd (beth bynnag fo'r achos) a grantiau marwolaeth. Mae gweithwyr sy'n dewis peidio ag ymuno â'r cynllun pensiwn yn gallu gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer yswiriant bywyd neu yswiriant am golli enillion. Pan fo aelod o'r staff yn dioddef anaf neu farwolaeth o ganlyniad i weithredoedd yr Awdurdod Tân, gellir gwneud hawliad yn erbyn yswiriant yr Awdurdod. Gan dalu sylw i'r ffactorau hyn, argymhellir y dylai polisi ysgrifenedig yr Awdurdod Tân gadw at arfer y gorffennol ac na fyddai unrhyw daliadau yn cael eu gwneud dan reoliadau 2011.***

**RHAN E**

**5. Diffiniadau**

*Diffiniad o resymau grymus a thosturiol:
(i) Gall yr aelod ddangos yn eglur fod ganddo ddibynnydd sydd angen goruchwyliaeth gyson gan yr aelod oherwydd afiechyd tymor hir, ac felly mae'r aelod yn dioddef caledi ariannol dybryd NEU
(ii) Mae rheswm sylweddol arall (nad yw'n ymwneud â gofalu am ddibynnydd sydd heb fod yn iach) pan fo'r aelod yn gallu dangos ei fod yn wynebu caledi ariannol parhaus a dybryd ac y bydd yn gwneud hynny am gyfnod hir.

Mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond ar ôl i'r Awdurdod Tân gymeradwyo hynny o flaen llaw, caiff y Gwasanaeth Tân amrywio telerau'r polisi hwn ar sail unigol.
Mae'r rhestr yn ddarostyngedig i statud, rheoliadau a pholisi'r Awdurdod Tân. Gellir ei amrywio yn y dyfodol fel bo'r angen.

Ymdrinir â phob disgresiwn yn annibynnol.